**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2024 DYDD MERCHER, 6 MAWRTH 2024**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors
C. Smith (Aelod Llywyddol)
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. Millard
J. Morgan, J.P.
J. C. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett

WITH:

Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymuned
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol Chorfforaethol
Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar hyn o bryd. | |
| No. 2 | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br><br>y Cynghorwyr H. Cunningham, J. P. Morgan, J. Thomas a D. Woods. | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau dilynol o fuddiant:<br><br>**Eitem Rhif 5: Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019; awdurdodi Rhenti Doeth Cymru i gynnal camau gweithredu gorfodaeth ym Mlaenau Gwent** | |

- Cynghorwyr M. Cross a J. C. Morgan

Cynghorodd y Swyddog Monitro y gallai'r Aelodau a enwir uchod aros yn y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried ac y gallent gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth a all ddilyn ac unrhyw bleidlais ddibynnol (os oes angen) yng nghyswllt yr eitem hon o fusnes.

**No. 4** **CYLLIDEB REFENIW 2024/2025**

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo:

- Y penderfyniad Treth Gyngor a fanylir isod.
- Gofyniad cyllideb statudol o £184,942,156.
- Defnyddio'r cronfeydd wrth gefn penodol a ddynodwyd yn gyfanswm o £1.5m (paragraff 5.1.16 yr adroddiad.

**5.1.2** Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2024 cytunodd y Cyngor ar gynnydd Treth Gyngor o 4.95% ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025. Fel canlyniad, elfen Cyngor Blaenau Gwent o'r holl dâl treth gyngor llawn fyddai:

| Bandiau prisiant (£) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| 1,279.94 | 1,493.26 | 1,706.59 | 1,919.91 | 2,346.56 | 2,773.20 | 3,199.85 | 3,839.82 | 4,479.79 |

**5.1.3** Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2023 roedd y Cyngor wedi cytuno mai sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer dibenion gosod y dreth fyddai 20,936.36 ar gyfer 2024/25, sef cyfanswm nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ym mhob ardal wedi'i addasu ar gyfer nifer o eitemau e.e. gostyngiadau taladwy, wedi'i luosi gan y gyfradd casglu dybiedig o 95.5%.

**5.1.4** Yn ychwanegol yn unol â Rheoliad 6 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor), swm ei sylfaen Treth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer yr anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o'r eitemau arbennig yn cyfeirio atynt oedd:

| | |
|---|---|
| 4,619.14 | Abertyleri a Llanhiledd |
| 1,712.68 | Brynmawr |
| 2,711.88 | Nantyglo a Blaenau |
| 4,761.60 | Tredegar |
| | |

**5.1.5** Mae'r uchod yn cynrychioli nifer yr anheddau y codir tâl arnynt lle byddai praesept y Cyngor Tref neu Gymuned yn weithredol.

**5.1.7** Bod y symiau dilynol yn awr yn cael eu cyfrif gan y Cyngor am y flwyddyn 2024/2025 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac adrannau 47 a 49 Deddf Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i diwygiwyd):

| | | |
|---|---|---|
| a | £184,734,156 | Croniad y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau yn adran 32(2) (a) i (d) o'r Ddeddf llai croniad y symiau mae'r Cyngor yn amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn adrannau 32 (3) (a) a (c) y Ddeddf a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag adran 32(4) y Ddeddf a'i gofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn. |
| b | £208,000 | Y swm mae'r Awdurdod yn ei amcangyfrif yng nghyswllt Adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethi 1997, ar gyfer cymorth ardrethi annomestig ar ddisgresiwn. |
| c | £144,044,000 | Croniad y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif fyddai'n daladwy am ei flwyddyn i'w gronfa Cyngor yng nghyswllt ardrethi annomestig a ailddosbarthwyd, grant cymorth refeniw a grant ychwanegol. |
| d | £1,953.45 | Y swm yn (a) uchod ynghyd â'r swm yn (b) uchod a llai'r swm yn (c) uchod, i gyd wedi eu rhannu gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn. |
| e | £702,229 | Swm cronnus yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf (Praeseptau Tref a Chymuned). |
| f | £1,919.91 | Y swm yn (d) uchod llai'r canlyniad a roddwyd drwy rannu'r swm yn (e) uchod gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer yr anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn cyfeirio ati. |

**5.1.8** Y symiau a roddir drwy ychwanegu'r swm yn (f) uchod at symiau'r eitem neu eitemau arbennig yn ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod wedi eu rhannu ym mhob achos gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn cyfeirio atynt oedd:

| | | |
|---|---|---|
| g | 2,002.42 | Abertyleri a Llanhiledd |
| | 1,946.18 | Brynmawr |
| | 1,958.63 | Nantyglo a Blaenau |
| | 1,955.84 | Tredegar |
| | | |

**5.1.9** Y symiau a roddwyd drwy luosi'r symiau yn (f) a (g) uchod gyda'r niferoedd, yn y gyfran a nodir yn adran 5(1) y Ddeddf, sy'n weithredol ar gyfer anheddau a restrir mewn band prisio neilltuol wedi ei rannu gan y nifer y mae'r gyfran honno yn berthnasol i anheddau a restrir ym Mand Prisio D, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau y rhoddir ystyriaeth iddynt ar gyfer y flwyddyn yng nghyswllt categorïau anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisiant oedd:

| | Treth Gyngor y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Praaseptiau Cymunedol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,334.95 | 1,557.43 | 1,779.93 | 2,002.42 | 2,447.41 | 2,892.38 | 3,337.37 | 4,004.84 | 4,672.31 |
| Brynmawr | 1,297.45 | 1,513.69 | 1,729.94 | 1,946.18 | 2,378.67 | 2,811.15 | 3,243.63 | 3,892.36 | 4,541.09 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,305.75 | 1,523.38 | 1,741.01 | 1,958.63 | 2,393.88 | 2,829.13 | 3,264.38 | 3,917.26 | 4,570.14 |
| Tredegar | 1,303.89 | 1,521.21 | 1,738.53 | 1,955.84 | 2,390.47 | 2,825.10 | 3,259.73 | 3,911.68 | 4,563.63 |
| Glynebwy | 1,279.94 | 1,493.26 | 1,706.59 | 1,919.91 | 2,346.56 | 2,773.20 | 3,199.85 | 3,839.82 | 4,479.79 |

**5.1.10** Y nodir ar gyfer blwyddyn 2024/2025 bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi rhoi'r symiau dilynol mewn praeseptiau a gyhoeddwyd i'r Cyngor (cyfanswm o £7,317,677), yn unol ag Adran 40 Deddf Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir:

| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 233.01 | 271.85 | 310.68 | 349.52 | 427.19 | 504.86 | 582.53 | 699.04 | 815.55 |

**5.1.11** Ar ôl cyfrif y croniad ym mhob achos o'r symiau yn (g) a 5.1.9 uchod, mae'r Cyngor yn unol ag adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 drwy hyn yn nodi'r symiau dilynol fel symiau'r Dreth Gyngor am y flwyddyn 2024/25 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:

| | Treth Lawn Treth y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Praeseptiau Heddlu a Chymuned | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,567.96 | 1,829.28 | 2,090.61 | 2,351.94 | 2,874.60 | 3,397.24 | 3,919.90 | 4,703.88 | 5,487.86 |
| Brynmawr | 1,530.46 | 1,785.54 | 2,040.62 | 2,295.70 | 2,805.86 | 3,316.01 | 3,826.16 | 4,591.40 | 5,356.64 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,538.76 | 1,795.23 | 2,051.69 | 2,308.15 | 2,821.07 | 3,333.99 | 3,846.91 | 4,616.30 | 5,385.69 |
| Tredegar | 1,536.90 | 1,793.06 | 2,049.21 | 2,305.36 | 2,817.66 | 3,329.96 | 3,842.26 | 4,610.72 | 5,379.18 |
| Glynebwy | 1,512.95 | 1,765.11 | 2,017.27 | 2,269.43 | 2,773.75 | 3,278.06 | 3,782.38 | 4,538.86 | 5,295.34 |

**No. 5**

**DEDDF RHENTU CARTREFI (FFIOEDD AC YN Y BLAEN) (CYMRU) 2019; AWDURDODI RHENTU DOETH CYMRU I YMGYMRYD Â GWEITHREDU GORFODAETH YM MLAENAU GWENT**

Datganodd y Cynghorydd M. Cross a J. C. Morgan fuddiant yn yr eitem hon gan aros yn cyfarfod tra'i bod yn cael ei hystyried.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd i gael ei ystyried.

PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod Cyngor Caerdydd, fel yr Awdurdod Trwyddedu Sengl ar gyfer Cymru (Rhentu Doeth Cymru) yn cael ei awdurdodi i weithredu swyddogaethau awdurdod gorfodaeth, yng nghyswllt ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ar gyfer dibenion Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc) (Cymru) 2019, yn cynnwys, heb gyfyngiad, gymryd camau gorfodi a dod â thrafodion troseddol yn unol ag adran 19 y Ddeddf honno.

**No. 6**

**EITEM EITHRIEDIG**

Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm am y penderfyniad dros yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol).

| No. 7 | **ACHOS BUSNES MASNACHOL** | |
|---|---|---|
| | Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol ynghylch y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y prawf budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd J. Millard â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad y cafodd yr adroddiad ei ystyried mewn Cyfarfod Arbennig y diwrnod blaenorol a bod Aelodau gan gydnabod yr amserlen fer ar gyfer symud y cynnig ymlaen wedi cymeradwyo Opsiwn 2, yn amodol ar yr argymhelliad ychwanegol dilynol:<br><br>- Dirprwyo pŵer i swyddogion i negodi hyd at uchafswm gwerth a gytunwyd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>Mewn pleidlais a gynhaliwyd,<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno) , a chymeradwyo Opsiwn 2 sef:<br><br>- symud ymlaen â'r cyfle a amlygir yn yr achos busnes; a<br><br>- dirprwyo pŵer i swyddogion i negodi hyd at uchafswm gwerth a gytunwyd.<br>. | |